**COFNODION CYFARFOD CYDBWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY A GYNHALIWYD YN YSTAFELL GYFARFOD 1, NEUADD Y DREF AR DDYDD GWENER, 17 TACHWEDD 2017**

**AELODAU**

Cynghorwyr Derek Butler (CSFf), Hugh Jones (Cadeirydd) (CBSW), David Kelly (CBSW), Carolyn Thomas (CSFf), Tony Thomas (CSDd), Julian Thompson-Hill (CSDd)

Hefyd yn Bresennol - Andy Worthington (Cadeirydd Partneriaeth AHNE), Paul Mitchell (Cyfoeth Naturiol Cymru), Howard Sutcliffe (Rheolwr AHNE), David Shiel (Swyddog Cynorthwyol yr AHNE), Ceri Lloyd (Swyddog Cronfa Ddatblygu Gynaliadwy yr AHNE), Huw Rees (CSDd), Anna Irwin (Uwch Swyddog Cadwraeth a'r Amgylchedd, CBSW), Michael Skuse (Partneriaeth AHNE a Chyfeillion AHNE), Karen Holthofer (Swyddog Cyfathrebu AHNE), Tom Woodall (Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol, CSFf), Gareth O Williams (Rheolwr Cyllid CSDd), Paula O'Hanlon (Uwch Swyddog Cyllid a Sicrwydd, CSDd), John Roberts (Partneriaeth AHNE a Chyfeillion AHNE), Helen Mrowiec (Uwch Swyddog Hamdden), Susan Cordiner (CSDd) a Marie Russell (Swyddog Pwyllgorau, CBSW)

## 13 CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLLTIAD

Gofynnodd y Cadeirydd i bawb oedd yn bresennol i ymuno ag o mewn munud o dawelwch fel arwydd o barch i deulu Carl Sargeant AC yn dilyn ei farwolaeth ddiweddar.

Ni chyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 14 COFNODION Y CYDBWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 23 MEHEFIN 2017

Cyflwynodd y Rheolwr AHNE y cofnodion drafft gan dynnu sylw at y prif bwyntiau i'w hystyried, gan roi'r newyddion diweddaraf lle bo hynny'n bosibl.

**PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod y Cydbwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Mehefin, 2017 fel cofnod cywir.**

## 15 COFNODION DRAFFT PARTNERIAETH YR AHNE A GYNHALIWYD AR 6 HYDREF 2017

Cyflwynodd Cadeirydd Partneriaeth AHNE y cofnodion drafft gan dynnu sylw at y prif bwyntiau i'w hystyried, gan roi'r newyddion diweddaraf lle bo hynny'n bosibl.

**PENDERFYNWYD - derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod Partneriaeth yr**

**AHNE a gynhaliwyd ar 6 Hydref, 2017 fel cofnod cywir.**

16 **CYLLIDEB Y CYDBWYLLGOR**

Rhoddodd Rheolwr Cyllid, CSDd ddiweddariad mewn perthynas â chyllideb y Cydbwyllgor. Fe nodwyd er bod gorwariant bychan yn cael ei ddarogan ar hyn o bryd, mae'n debygol o gael ei adennill erbyn diwedd y flwyddyn. Fe nodwyd hefyd bod cronfeydd refeniw wrth gefn wedi cael eu nodi.

17 **CYFLWYNIAD – DATGANIADAU ARDAL**

Rhoddodd Paul Mitchell (CNC) gyflwyniad manwl oedd yn cynnwys rhagor o wybodaeth o dan y penawdau canlynol:

- Beth yw Datganiadau Ardal
- Beth maent yn ei olygu i AHNE
- Blaenoriaethau Polisi Adnoddau Naturiol
- Amserlenni

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, yn benodol:

- Ni fyddai datganiadau ardal yn gwrthwneud y CDLl, ond byddai'n ffynhonnell o wybodaeth y gallai'r CDLl ei ystyried wrth benderfynu ar effaith unrhyw ddatblygiad neu geisiadau cynllunio mewn perthynas ag adnoddau naturiol.
- Cadarnhad bod nifer o gynlluniau a dogfennau a fyddai'n cyd-redeg â'u gilydd. Cadarnhaodd swyddogion bod cyfres o gyfarfodydd wedi cael eu trefnu ar gyfer swyddogion perthnasol o'r 3 Awdurdod Lleol i sicrhau bod mecanwaith cyflenwi gyffredin yn cael ei sefydlu.
- Pryder ynghylch y gwahaniaeth rhwng y cyllid ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri a'r AHNE.

**PENDERFYNWYD - y dylid nodi'r cyflwyniad.**

18 **ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA DATBLYGU CYNALIADWY 2016/17 A CHYFLWYNIAD - DIWEDDARIAD Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY AR BROSIECTAU 2017/18**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol yr adroddiad a rhoddodd gyflwyniad a oedd yn cynnwys rhagor o fanylion o dan y penawdau canlynol:

- Cyfanswm Gwerth y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2016
- Nodau Llesiant – sut mae'r CDC wedi cyfrannu?
- Cymru ffyniannus
- Cymru gyfrifol yn fyd-eang

Wrth drafod, nodwyd y pwyntiau canlynol, yn benodol:

- Mynegwyd pryder bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar lai o brosiectau, ond eu bod yn rhai mwy o faint.
- Pryder bod y trothwy isafswm ar gyfer prosiectau yn parhau i godi ac felly yn eithrio llawer o gynlluniau llai.
- Cafodd pwysigrwydd grantiau bach eu cydnabod. Yn benodol, cafodd gwerth ymgysylltu lleol ei nodi.
- Er nad oedd angen i'r AHNE fod yn rhan o faterion lleol, roedd hi'n bwysig nodi bod prosiectau Cronfa Datblygu Cynaliadwy yn hyrwyddo cyflawni nodau Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.

**PENDERFYNWYD -**

**(i) Nodi'r adroddiad;**
**(ii) Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog ar ran Cydbwyllgor AHNE, i fynegi eu pryderon.**

**19 PARTNERIAETH EIN TIRWEDD HARDD**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol adroddiad ac fe atebodd gwestiynau wedyn.

Wrth ymateb i bryder penodol, cadarnhaodd Swyddogion bod y cais gwreiddiol yn cynnwys ardal ehangach o'r AHNE, ond yn dilyn cyngor gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, mae'n canolbwyntio ar ardal fwy penodol.

**PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor yn:**

**(i) cymeradwyo cyflwyno cais Cam 2 i Gronfa Dreftadaeth y Loteri.**
**(ii) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les fel rhan o'i ystyriaethau.**

**20 DIWEDDARIAD AR Y CCA**

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol ddiweddariad ar lafar a gafodd ei nodi.

**21 DIWEDDARIAD AR Y FENTER AWYR DYWYLL**

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol gyflwyniad PowerPoint a oedd yn cynnwys rhagor o fanylion o dan y penawdau canlynol:

- Dynodiad
- Gofynion IDA
- Monitro ansawdd awyr AHNE

- Ymgysylltu â Chymunedau a Busnesau
- Camau Nesaf

Gwnaed y sylwadau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, yn benodol:

- Cadarnhad bod y 3 Awdurdod Lleol yn cymryd rhan yn llawn yn y fenter.
- Roedd cyfarfod pellach gyda chynrychiolwyr goleuadau stryd o'r 3 ALl wedi cael ei drefnu. Fe awgrymwyd bod nifer o aelodau'r Cydbwyllgor yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y cyfarfod.
- Cadarnhad bod allyriadau golau yn lleihau.

**PENDERFYNWYD - y dylid nodi'r cyflwyniad.**

## 22 CRYNODEB O YMGYNGHORIADAU CYNLLUNIO'R AHNE O FIS EBRILL 2017 HYD AT FIS MEDI 2017

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol yr adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau i'w hystyried. Dywedodd y byddai canllaw cynllunio atodol yn ffordd o symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.**

## 23 RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL

Fe aeth y Swyddog drwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y prif faterion i'w ystyried o fewn y Rhaglen Waith. Cyfeiriodd yn benodol at Brosiectau Arbennig AHNE, a oedd yn cynnwys gweithred i Gyfeillion AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy roi cyflwyniad gerbron Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol.

**PENDERFYNWYD – Nodi'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol.**

## 24 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

**PENDERFYNWYD – Y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yng Nghyngor Sir y Fflint ar 23 Chwefror 2018.**

Cynghorydd Hugh Jones (CBSW)
Cadeirydd